

Ymateb UCAC i Ymgynghoriad Cyngor Sir Ddinbych ar y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Medi 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Cyflwyniad

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Sir Ddinbych i'r polisi ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae UCAC yn gwerthfawrogi bod pob awdurdod lleol dan bwysau mawr i fod mor gost effeithiol â phosibl a bod darparu cludiant yn gallu golygu costau sylweddol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

Dymuna'r Undeb gyflwyno sylwadau ar bedwar mater yn benodol:

1. Addysg Cyfrwng Cymraeg

Mae UCAC yn croesawu'r datganiad yn y polisi o'r rheidrwydd sydd ar yr Awdurdod i :

- Hyrwyddo Mynediad i Addysg Cyfrwng Cymraeg (1.2)

Mae'r Undeb hefyd yn croesawu'r ffaith bod y polisi yn sefydlu'r egwyddor bod '*dewis*' rhieni o ran '*cyfrwng*' yr addysg, fel yn achos addysg ffydd, yn ffactor wrth adnabod yr '*ysgol addas agosaf*'. (Adran 4.4)

Mae'r Polisi yn adnabod yr ysgolion hynny sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir ar hyn o bryd ac yn gwahaniaethu rhyngddynt o ran *Categori 1* a *Chategori 2*. Nid yw'r ddiffiniadau hyn yn gwahaniaethu'n ddigon manwl nac yn gwbl unol â chategoriâu Llywodraeth Cymru Hydref 2007 (Dogfen Rhif 023/2007).

Dylai rhieni Sir Ddinbych sy'n dymuno i'w plentyn gael addysg cyfrwng Cymraeg gael y dewis naill ai i anfon eu plentyn i Ysgol Categori 1, sef ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cyfathrebu a'r addysgu, neu Ysgol Categori 2 lle mae dosbarth(iadau) cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â dosbarthiadau Saesneg mewn cyd-destun ddwyieithog, ond lle na cheir sicrwydd wedyn bod pob cwrs ar gael yn y Gymraeg. Dylai'r Sir wedyn ddarparu cludiant yn unol â'r dewis hwn gan y rhieni.

Mae'r Undeb yn croesawu'r cyfeiriad at gludo plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd y tu allan i'r Sir os ydynt yn nes i'w cartref.

2. Addysg OI-16

Mae'r Undeb yn croesawu'r datganid o ran Cludiant Ôl 16 (Adran 4.60) ac yn rhagdybio bod yr egwyddor o ran dewis rhieni/myfyriwr o ran cyfrwng yr addysg yn parhau yn y cyd-destun hwn hefyd.

Byddai'r Undeb yn awyddus i'r Polisi gyfeirio hefyd at ddarparu cludiant yn ôl disgrisiwn i ddisgyblion/fyfyrrwyr ôl 16 sy'n symud tŷ yn ystod y cyfnod pwysig hwn yn eu haddysg (Paragraff 4.9).

3. Plant Meithrin

Er nad oes newid yn y polisi o ran cludiant i blant meithrin, byddai'r Undeb yn awyddus i'r Awdurdod wneud astudiaeth i ganfod i ba raddau mae darparu cludiant yn ffactor pan yw rhieni'n dewis addysg Gymraeg i'w plant a'i peidio. Os canfyddir ei fod, yna byddai angen ail edrych ar y ddarpariaeth o gludiant i blant oed meithrin er mwyn gweithredu'r gofyn i hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r annhebygol y byddai rhieni yn symud eu plant i ysgol Gymraeg os ydynt wedi treulio'r flwyddyn feithrin mewn ysgol cyfrwng Saesneg sy'n fwy lleol; hefyd mae'r trochi yn yr iaith sy'n digwydd yn y flwyddyn feithrin yn allweddol yn natblygiad dwyieithrwydd mewn plant ifanc.

4. Ad-drefnu Ysgolion

Byddai'n fuddiol, er eglurder, cael diffiniad o beth yw '*cyfnod penodedig*' yn y cyd-destun hwn gan ei fod yn aml yn fater cynhennus iawn yn y broses sensitif o ad-drefnu ysgolion (paragraff 4.10).

I Gloi

Diolch unwaith eto am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddai'r Undeb yn barod iawn i drafod y sylwadau hyn ymhellach efo aelodau etholedig a/neu swyddogion o'r Awdurdod.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com